# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**3.15 y.h., DYDD MERCHER, 1AF GORFFENNAF, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

## IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

## Aelodau a phleidlais

### Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| Richard Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Cater | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Alan James | Cyngor Sir Ddinbych |
| Hugh Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Nicola Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

### Aelod Eryri

| | |
|---|---|
| Edgar Wyn Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

### Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol

| | |
|---|---|
| Andrew Farrow | Cyngor Sir y Fflint |
| David Fitzsimon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| James Harland | Cyngor Sir Conwy |
| Dewi Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Mead | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gareth Jones | Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol |
| Iwan Evans | Swyddog Monitro |
| Claire Incledon | Dirprwy Swyddog Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Sian Pugh | Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 26/01/26 fel rhai cywir.

**7. SEFYLLFA'R CDS A'R CAMAU NESAF** 11 - 22

**8. BLAENGYNLLUN GWAITH 2026/27** 23 - 25

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**
**26/01/2026**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Nicola Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)
Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Is-gadeirydd)

**Cynghorwyr:**
Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Richard Jones (Cyngor Sir y Fflint), Chris Cater (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Edgar Wyn Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:**
Adrian Walters (Cyngor Sir y Fflint), Dewi Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Paul Mead (Cyngor Sir Ddinbych), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd) a Keira Sweeney (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion yn bresennol:**

Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid), Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Cynghorydd Alan James (Cyngor Sir Ddinbych)
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 4 Medi 2025, fel cofnod cywir.

**5. CYFLWYNO CYTUNDEB CYFLAWNI Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL FFURFIOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi canlyniad yr adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2026 a'r camau nesaf ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.**

**Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol sydd yn gyfrifol am baratoi'r Cytundeb Cyflawni drafft. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau cydlynu a chynllunio ynghylch pob cam tuag at gyflawni'r CDS.

**TRAFODAETH**

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol adroddiad yn crynhoi canlyniad cyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2026, a'r camau a arweiniodd at yr argymhelliad i gyflwyno Cytundeb Cyflawni y Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth weinidogol. Eglurwyd bod yr adroddiad yn gosod trywydd archwilio cynhwysfawr a oedd yn rhoi diweddariad i'r Is-bwyllgor ac yn tystiolaethu'r camau y mae'r Cytundeb Cyflawni wedi mynd drwyddynt. Cyfeiriwyd at adran gefndirol yr adroddiad hwn, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at y cyfarfodydd ble roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y Cytundeb Cyflawni yn y gorffennol ac ar ba sail yr oedd argymhellion yn cael eu gwneud.

Adroddwyd bod mis Medi 2025 wedi bod yn garreg filltir allweddol, gan fod yr Is-bwyllgor wedi ystyried fersiwn ddrafft o'r Cytundeb Cyflawni a'r priodoldeb i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol, yn ddarostyngedig i gadarnhad y gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig osod cyllideb 2026-2027 ac adnabod y cyllid ychwanegol sydd ei angen i ddechrau'r Cynllun Datblygu Strategol a chynnal y gwaith cyflawni ar hyd y rhaglen pum mlynedd. Nodwyd bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cadarnhau'r un safbwynt amodol ar 19 Medi 2025, gan nodi'r pryderon ariannol a godwyd, ac na allai'r Cytundeb Cyflawni fynd yn ei flaen nes bod cyllideb 2026-2027 wedi'i gosod.

Eglurwyd, drwy'r broses o osod cyllideb yn yr Hydref, bod gwaith wedi'i gynnal gyda'r Prif Swyddog Cyllid a swyddogion cyllid i adnabod opsiynau oedd yn cyd-fynd â'r gofynion a nodwyd yn flaenorol, sef y dylid dod o hyd i'r adnoddau ychwanegol oedd eu hangen ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol, pan fo'n bosib, o fewn adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ac na ddylid rhoi baich ychwanegol sylweddol ar gyllidebau awdurdod lleol drwy gynyddu'r ardoll yn sylweddol. Adroddwyd bod y broses gosod cyllideb wedi nodi ffordd o gwrdd â gofyniad cyllido y flwyddyn gyntaf heb greu pwysau ardoll ychwanegol a fyddai'n cael ei briodoli i'r Cynllun Datblygu Strategol. Nodwyd bod y cynnydd yn yr ardoll ar gyfer 2026-2027 wedi'i gyfyngu i gynnydd chwyddiannol o 3.5%.

Nodwyd mai oddeutu £655,000 y flwyddyn oedd yr amcangyfrif o ofyniad cyllido blynyddol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol dros y rhaglen pum mlynedd. Nodwyd bod cyllideb blwyddyn un wedi'i gosod ar £597,000, oedd yn adlewyrchu'r gofyniad arfaethedig ar gyfer y flwyddyn gyntaf, yn hytrach na gofyn am y swm cyfartalog llawn, ac y bydd y gyllideb yn cael ei hadolygu a'i gosod yn flynyddol drwy'r cylch cyllideb arferol.

Adroddwyd bod y gallu i osod cyllideb blwyddyn un heb effaith sylweddol ar ardoll wedi'i gyflawni drwy ddefnyddio adnoddau mewnol, gan gynnwys tanwariant yn erbyn cyllideb refeniw y Cynllun Datblygu Strategol yn 2025 i 2026, a sicrhau grant perfformiad o £200,000 gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod yr elfennau hyn wedi lliniaru pwysau ariannol posib ar yr awdurdodau cyfansoddol a

gallant ddarparu lliniaru tebyg ym mlwyddyn dau, ac o bosib y tu hwnt i hynny, yn dibynnu ar amgylchiadau'r dyfodol.

Mewn trafodaeth, gofynnwyd a fyddai cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gael yn y flwyddyn i ddod er mwyn cefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth rhagnodol wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a nodwyd bod sicrwydd ynghylch grantiau'r dyfodol yn annhebygol yn agos at gyfnod yr etholiad. Nodwyd, er nad oedd cyllid ar gael naw i ddeg mis ynghynt, bod grant perfformiad o £200,000 wedi'i sicrhau, a ffurfiodd ran o ddyraniad £400,000 ar draws y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a dangosodd hyn y budd o ddangos cynnydd da gyda'r cynllun. Nodwyd ymhellach mai'r Cynllun Datblygu Strategol oedd un o feysydd gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac ni wnaeth hyn ddenu ychwanegiad grant blynyddol yn awtomatig. Nodwyd y byddai sylwadau i Lywodraeth Cymru yn parhau, gyda chynnydd yn cael ei ddefnyddio i gryfhau achosion yn y dyfodol ar gyfer cyllid, yn benodol ar ôl yr etholiad yn dibynnu ar flaenoriaethau polisi.

Gofynnwyd a fyddai modd defnyddio llog ar gronfeydd i gefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol a lleihau pwysau ardoll. Mewn ymateb, adroddodd y Prif Swyddog Cyllid bod hyn wedi'i ystyried o fewn y broses gyllideb a'r cynllun corfforaethol. Nodwyd bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i fod yn gorff gymharol ifanc ac nad oedd rhai swyddi wedi'u llenwi mor sydyn â'r disgwyl, gan arwain at gronni tanwariant. Adroddwyd bod y sefyllfa hon wedi galluogi i'r ardoll a godwyd ar y chwe chyngor a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i gael ei chadw i lawr ar gyfer 2026-2027. Nodwyd, er nad oedd y tanwariant wedi'i gynllunio, bod y sefyllfa wedi galluogi i gyfran sylweddol o gronfeydd gael eu defnyddio ar gyfer cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol, sydd wedi helpu i leihau cynnydd mewn ardoll mewn cyd-destun lle nad oedd modd gwarantu cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Pwysleisiwyd mai arwyddocâd  cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru oedd gallu ariannu blwyddyn un, yn ogystal â'r ymrwymiad i ariannu'r gwaith cyflawni ar draws y rhaglen pum mlynedd lawn. Nodwyd bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cynnal trafodaeth fanwl ynghylch balansau a chronfeydd, ac adroddwyd bod cynnal cronfeydd yn ddull darbodus a oedd yn lliniaru risg ariannol yn y dyfodol a rhoi sicrwydd pe byddai ariannu amrywiol o flwyddyn i flwyddyn. Nodwyd bod y dull hwn wedi cefnogi argymhelliad cadarnhaol i barhau gyda chyflwyno ffurfiol, ac adroddwyd bod y sefyllfa ariannol yn ddigon cadarn am o leiaf y ddwy i dair blynedd gyntaf, gan nodi na fyddai tanwariant o angenrheidrwydd yn digwydd bob blwyddyn.

Gofynnwyd a ddylid rhagweld cynnydd ardoll sylweddol y flwyddyn ganlynol os nad oedd mwy o danwariant na chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb, adroddwyd nad oedd modd rhoi gwarantau ond nad oedd disgwyl cynnydd mawr yn yr ardoll y flwyddyn ganlynol. Nodwyd bod y dull a gymerwyd wedi creu hyblygrwydd a lliniaru, oherwydd byddai'r grant £200,000 naill ai'n ariannu gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn neu'n llifo i falansau fel tanwariant, gyda'r ddau opsiwn yn cefnogi'r sefyllfa gyda gosod y gyllideb. Ategwyd bod y Cynllun Datblygu Strategol yn ofyniad statudol, a nodwyd y byddai angen adnabod cyllid drwy broses gyllideb y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na dibynnu ar grantiau, ynghyd ag ymdrechion parhaus i sicrhau cyllid allanol ychwanegol. Pwysleisiwyd bod y prosiect yn y sefyllfa orau bosib yn ariannol ar ddechrau prosiect o'r natur hwn.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynghylch Grant Perfformiad Strategol Llywodraeth Cymru o £200,000. Mewn ymateb, rhoddwyd cadarnhad bod Grant Perfformiad Llywodraeth Cymru o £200,000 yn ymwneud â 2025-2026, wedi'i hawlio fel ôl-daliad a nodwyd bod oddeutu £50,000 wedi'i hawlio hyd yn hyn gyda'r hawliad a oedd ar ôl i'w

gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd y byddai'r incwm hwn i'w weld yng nghyfrifon 2025-2026 ac o fewn y llinellau incwm cynllunio strategol yn y wybodaeth monitro refeniw berthnasol, a nodwyd ymhellach bod modd cario unrhyw danwariant cysylltiedig ymlaen i'r cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio yn 2026-2027.

Adroddwyd y byddai cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys rhagolygon tair-i-bum-mlynedd yn cael ei gyflwyno tua mis Medi 2026, a nodwyd y byddai modd gweld yn well y cyllid arfaethedig a'r newidiadau ardoll tebygol fel hyn, gyda'r bwriad y byddai unrhyw effaith yn y dyfodol yn cael ei deall cyn gosod cyllideb flynyddol.

Nododd aelod, pan fo'n bosib, y byddai arian sydd heb ei wario yn cael ei hawlio yn ôl fel arfer wrth ystyried y straen ariannol ar nifer o awdurdodau lleol, ond nodwyd bod cario cronfeydd ymlaen i gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r rhaglen Cynllun Datblygu Strategol pum-mlynedd yn briodol wrth ystyried natur statudol y gwaith, yr angen i leihau effeithiau ardoll a'r budd o allu lliniaru ar gyfer y dyfodol. Mewn ymateb, adroddwyd y dylai Cynllun Datblygu Strategol, dros amser, leihau dyblygu ac arwain at ddull mwy effeithlon a symlach i adolygu cynllun datblygu lleol a dechrau cronni arbedion ariannol yn y tymor hwy.

## 6. AMSERLEN Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL 2026/27 A THASGAU ALLWEDDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac y bydd y rhestr dasgau a gyflwynir yn llywio datblygiad rhaglen waith yr Is-bwyllgor a chydlynu cyfarfodydd.**

**Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol sy'n gyfrifol am weithredu Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau cydlynu a chynllunio ynghylch pob cam tuag at gyflawni'r SDP.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd amserlen rhaglen waith y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer 2026-2027, ac eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi golwg cynnar, gan dybio y byddai Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni, gan osod y cerrig milltir a'r tasgau allweddol ym mlwyddyn un y rhaglen pum mlynedd. Adroddwyd bod y pum neu chwe cam cyntaf yn y tabl yn ymwneud yn bennaf â chamau gweithdrefnol yn dilyn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys trefniadau cymeradwyo, dechrau a chyhoeddi. Nodwyd hefyd bod recriwtio wedi ffurfio rhan o'r camau cynnar hyn, ac adroddwyd bod cyllideb gymeradwy y Cynllun Datblygu Strategol wedi galluogi recriwtio o leiaf un cynllunydd ychwanegol i gefnogi’r gwaith cyflawni ym mlwyddyn un. Pwysleisiwyd bod ychwanegu capasiti o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn bwysig i gadw at derfynau amser o fewn yr amserlen gyffredinol.

Adroddwyd bod yr eitemau hwyrach yn yr amserlen, yn benodol pwynt saith i ddeg, yn cynrychioli camau mwy sylweddol yn y broses flwyddyn un ac mai'r rhain fyddai'r meysydd fwyaf tebygol o fod angen adroddiadau i'r Is-bwyllgor eu hystyried, eu trafod a'u llywio, cyn i faterion gael eu hadrodd ymlaen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Eglurwyd

mai un allbwn sylweddol cynnar fyddai paratoi Adroddiad Prif Faterion. Nodwyd bod gwaith paratoi eisoes wedi dechrau i roi contract ymgynghoriaeth yn ei le i helpu datblygu'r sail dystiolaeth, ac adroddwyd y byddai hyn yn dechrau gydag archwiliad o'r seiliau tystiolaeth cyfredol a oedd yn cefnogi cynlluniau datblygu lleol o fewn pob ardal awdurdod cyfansoddol. Nodwyd mai bwriad y dull oedd osgoi dyblygu ac osgoi ailddyfeisio'r olwyn, gan adnabod bod awdurdodau lleol eisoes wedi buddsoddi llawer o amser ac arian i ddatblygu seiliau tystiolaeth a lle oedd tystiolaeth yn dal i fod yn gyfredol, byddai'n cael ei defnyddio yn hytrach na'i hailadrodd.

Adroddwyd y byddai'r archwiliad hefyd yn adnabod bylchau tystiolaeth a meysydd fydd angen eu diweddaru, yn benodol lle'r oedd tystiolaeth wedi dyddio, a byddai hyn yn llywio lle y gallai fod angen targedu ariannu cyfyngedig i sicrhau darlun rhanbarthol cyson. Nodwyd y byddai'r dull yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau a oedd eisoes yn bwriadu adnewyddu seiliau tystiolaeth, er mwyn alinio gweithgarwch a sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer adnoddau cyhoeddus cyfyngedig. Adroddwyd y byddai'r Adroddiad Prif Faterion yn tynnu'r materion sylweddol rhanbarthol sy'n codi o'r archwiliad tystiolaeth hwn, i lywio sgôp a chyfeiriad y Cynllun Datblygu Strategol.

Nodwyd y bydd gwaith, ochr yn ochr â chasglu’r sail dystiolaeth, hefyd yn cael ei gynnal i brofi materion sy'n codi gyda'r dewisiadau lleol a rhanbarthol. Adroddwyd y byddai hyn yn cynnwys datblygu amcanion strategol, gweledigaeth a materion, a nodwyd y byddai angen hwyluso gwaith ymgysylltu gydag aelodau'r Is-bwyllgor a rhanddeiliaid eraill i adnabod yr hyn a ystyriwyd yn fwyaf arwyddocaol ar gyfer gogledd Cymru a beth ddylai'r Cynllun Strategol ei flaenoriaethu. Nodwyd bod hyn yn sgwrs bwysig a'i fod yn debygol o fod fwyaf effeithiol wyneb yn wyneb, ond nodwyd y byddai'n mynd ymlaen gyda pha bynnag fformat oedd fwyaf ymarferol. Nodwyd ymhellach y byddai'r un trafodaethau hefyd yn cymryd lle o swyddog i swyddog gydag arweinwyr polisi cynllunio o fewn pob awdurdod i ddeall blaenoriaethau lleol, lle mae adolygiadau cynllun datblygu lleol yn mynd yn eu blaenau, a sut oedd materion sylweddol lleol yn ffurfio safbwynt rhanbarthol.

Adroddwyd y bydd hefyd angen gwaith i ddiffinio hierarchaeth setliad a datblygu twf ac opsiynau gofodol. Eglurwyd y byddai hyn yn cynnwys ystyried graddfa briodol o dwf ar gyfer gogledd Cymru dros gyfnod o 25 mlynedd, gan gynnwys gofynion tai, anghenion tir cyflogaeth ac ystyriaethau datblygu eraill megis manwerthu canol trefi, ynghyd â'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi twf. Nodwyd y byddai'r dull yn ceisio cyd-fynd â'r hyn oedd yn codi drwy adolygiadau cynllun datblygu lleol i osgoi gwrthdaro cynnar, ac eglurwyd, yn hytrach nag asesu pob setliad o fewn hierarchaethau lleol, y byddai strwythur setliad rhanbarthol lefel-uchel yn cael ei ddatblygu, gan nodi'r setliadau pwysicaf yn rhanbarthol a'u rôl strategol. Nodwyd y byddai opsiynau yn cael eu datblygu a'u trafod i sefydlu meysydd ble roedd cytundeb a chonsensws.

Adroddwyd y byddai safleoedd posib yn gam cynnar o'r broses Cynllun Datblygu Strategol a bydd hyn yn gofyn am ddatblygu methodoleg glir i ddiffinio beth fyddai'n cyfrif fel safle strategol. Nodwyd y byddai angen i hyn gynnwys, er enghraifft, trothwyon ar gyfer safleoedd tai strategol, safleoedd aml-ddefnydd, safleoedd tir cyflogaeth a mathau sylweddol eraill o ddatblygiad yn y rhanbarth. Adroddwyd y byddai hyn yn arwain at alw am safleoedd posib, gyda ffenestr ddangosol o chwech-i-wyth-wythnos ar gyfer cyflwyno cais gyda thystiolaeth, gan alluogi tirfeddianwyr a phartïon gyda diddordeb mewn tir ar y raddfa berthnasol i roi safleoedd ymlaen i'w hystyried.

Nodwyd, gyda'i gilydd, bod yr amserlen yn cynrychioli rhaglen blwyddyn un uchelgeisiol a llawn. Adroddwyd mai'r bwriad oedd i'r camau sylweddol a nodwyd

hysbysu cyfres o gyfarfodydd Is-bwyllgor yn ystod y flwyddyn, o bosib ar sail chwarterol, ond nodwyd nad oedd dyddiadau wedi'u gosod eto. Hefyd, adroddwyd y byddai angen trefnu dyddiadau cyfarfod mewn modd oedd yn plethu ag amserlen y Cyd-bwyllgor Corfforedig, fel y gallai ystyriaeth ac argymhellion yr Is-bwyllgor fwydo i benderfyniadau dilynol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Nodwyd bod disgwyl am galendr cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig cyn cwblhau amserlen yr Is-bwyllgor. Adroddwyd y byddai rhaglen waith ffurfiol yn dilyn, i'w drafftio a'i chylchredeg, gyda'r bwriad o osod dyddiadau cyfarfod cyn gynted â phosib.

Gofynnwyd a oedd unrhyw risgiau wedi'u nodi a allai effeithio ar yr amserlen, gyda chyfeiriad penodol at drafferthion cadw a recriwtio staff yn effeithio ar awdurdodau lleol a goblygiadau posib ar gyfer y rhaglen Cynllun Datblygu Strategol. Mewn ymateb, adroddwyd bod recriwtio wedi'i gyfyngu'n bwrpasol i liniaru pwysau ar y pŵl o uwch gynllunwyr profiadol yng ngogledd Cymru, a nodwyd, er bod y rhaglen gyflawni yn cyfeirio at dîm mewnol o bedwar cynllunydd ychwanegol, bod gofyn am gael un uwch swyddog cefnogi ychwanegol ar gyfer blwyddyn un i gydbwyso anghenion adnoddau gyda'r risg o gymryd staff o awdurdodau lleol. Adroddwyd, felly, y byddai dibyniaeth sylweddol ar gefnogaeth ymgynghorol i liniaru risg a galluogi cynnydd yn erbyn amserlenni uchelgeisiol. Nodwyd bod cyllideb blwyddyn un yn cynnwys y ddarpariaeth o bron i £300,000 ar gyfer cefnogaeth ymgynghorol, ac adroddwyd mai bwriad hyn oedd sicrhau tîm rhithiol yn hytrach na chreu effeithiau recriwtio uniongyrchol ar awdurdodau lleol. Nodwyd ymhellach y byddai dull hyblyg yn cael ei gynnal, gan gynnwys y posibilrwydd o gyfleoedd am secondiad yn y dyfodol pan fo'n briodol, gan adnabod y buddion posib i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer cynllunwyr.

Cafodd pryderon eu codi am gynaliadwyedd defnydd ymgynghorol wrth ystyried y gost a'r risg o recriwtio cystadleuol ar draws awdurdodau a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o fewn yr un farchnad lafur. Mewn ymateb, rhoddwyd sicrwydd mai'r ymgynghorwyr oedd Arup, oedd yn cael eu disgrifio fel ymgynghoriaeth aml-ddisgyblaethol genedlaethol, a nodwyd eu bod eisoes wedi cynnal gwaith sylweddol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth gefnogi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys gwaith cynnar i adeiladu sail dystiolaeth a allai hefyd gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol. Adroddwyd bod hyn yn golygu nad oedd y rhaglen yn dechrau o dudalen wag, a nodwyd mai'r briff a gyhoeddwyd oedd i adeiladu ar y dystiolaeth gynnar yn hytrach nac ail-ymweld neu ddyblygu. Adroddwyd y byddai'r set ddata gyfredol hon ac ymgysylltu blaenorol gydag awdurdodau yn cefnogi cynnydd mwy effeithlon, gan alluogi'r archwiliad tystiolaeth ac Adroddiad Prif Faterion i symud ymlaen yn fwy sydyn. Hefyd, nodwyd na fyddai'r dystiolaeth a ddatblygwyd drwy'r gwaith hwn yn cael ei chau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac mai'r bwriad oedd i allbynnau tystiolaeth perthnasol fod ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi eu gwaith eu hunain, gan alluogi effeithlonrwydd posib a lleihau'r angen ar gyfer dyblygu'r comisiynau am ymgynghoriaeth leol.

Gofynnwyd a fyddai'r Cynllun Datblygu Strategol yn gosod newidiadau polisi ar gynghorau unigol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac a fyddai modd ei ddefnyddio i gefnogi heriau lleol penodol - codwyd enghraifft yn ymwneud â rheoli ail gartrefi a thai haf a'r defnydd o drothwyon ar draws gwahanol gymunedau o gymharu â dull ardal-eang. Mewn ymateb, nodwyd y dylid ystyried y Cynllun Datblygu Strategol fel cyfle i siapio polisïau sy'n berthnasol yn rhanbarthol a, pan fo'n briodol, polisïau is-ranbarthol drwy drafodaeth a chytundeb. Adroddwyd nad y dull fyddai i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig osod polisi ar awdurdodau, ond yn hytrach cydweithio i ddatblygu polisïau oedd yn gweithio'n gadarnhaol ar gyfer ardaloedd perthnasol ac y gellid eu dehongli a'u defnyddio drwy gyd-destunau polisi lleol unwaith y bydd y Cynllun Datblygu Strategol

wedi'i fabwysiadu. Nodwyd y byddai'r math o broblem a godwyd yn enghraifft o fater ar gyfer y trafodaethau hynny, er mwyn dangos sut y gellir datblygu polisi effeithiol.

Yn dilyn y drafodaeth, codwyd cynigion ychwanegol i gefnogi trefniadau gweithio effeithiol: -

1. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod ar 9 Mawrth 2026 wyneb yn wyneb i hwyluso trafodaeth fwy anffurfiol a chryfhau perthnasau gwaith.
2. Cynigiwyd y dylid datblygu rhaglen hyfforddi aelodau yn y cefndir, ynghyd â'r cylch cyfarfod ffurfiol, fydd o bosib yn cael ei gynnal yn rhithiol bedair neu bum gwaith y flwyddyn, er mwyn adeiladu dealltwriaeth o'r broses, cyd-destun a phynciau allweddol. Awgrymwyd y gallai sesiwn gychwynnol gynnwys mewnbwn gan Lywodraeth Cymru wrth wahodd pennaeth y gangen cynlluniau datblygu i ddarparu trosolwg o'r broses Cynllun Datblygu Strategol a rôl aelodau - wedi'i threfnu o bosib cyn y cyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Mawrth. Nodwyd y gellir cadw llyfrgell o ddeunyddiau fel bod modd cael mynediad at ac ail-ymweld â sesiynau gan bobl oedd methu â mynychu. Cytunwyd y byddai hyfforddiant yn fuddiol, a gofynnodd yr aelodau am i'r hyfforddiant fod yn hyblyg ac yn ymatebol i bynciau oedd yn codi yn ystod y rhaglen, yn hytrach na’u bod yn rhai oedd wedi'u gosod yn rhy bell ymlaen llaw.
3. Cynigiwyd y dylid darparu diweddariadau anffurfiol rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, er enghraifft drwy ddiweddariad byr misol ar ffurf e-bost neu ar ffurf cylchlythyr neu flog i ddiweddaru aelodau ar y cynnydd a'r camau nesaf, ac i greu trywydd archwilio hwylus o ddiweddariadau dros amser. Rhoddwyd cefnogaeth ar gyfer derbyn diweddariadau o'r fath.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:06 a daeth i ben am 15:10.

________________________________________

Cadeirydd

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Eitem 7

IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

DYDD MERCHER 1 GORFFENNAF 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad ar Sefyllfa'r Cynllun Datblygu Strategol a'r Camau Nesaf |
| AWDUR: | Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP); ystyried rhai o'r cerrig milltir a'r camau nesaf yn y flwyddyn i ddod; ac i ddarparu adborth o'r sesiwn gweithdy a gynhaliwyd gyda'r Grŵp hwn ym mis Mawrth 2026.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r cerrig milltir allweddol yn y rhaglen SDP, a fydd yn ffurfio'r flaen-raglen waith ar gyfer y Pwyllgor hwn (gweler yr adroddiad ar wahân yn y rhaglen hon).

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd gyda'r SDP o ystyried y gweithdy diwethaf a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026, ac Etholiadau'r Senedd a arweiniodd at roi'r gorau i fusnes ffurfiol y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn ystod y cyfnod cyn-etholiadol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar bob un o'r materion isod:

- Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cytundeb Cyflawni'r SDP
- Sicrhau Grant Perfformiad o £200k gan Lywodraeth Cymru
- Cerrig milltir ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen SDP
- Adrodd ar gynnydd i'r aelodau
- Adborth o'r gweithdy SDP a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026

Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni

4.2 Efallai y bydd yr Aelodau yn cofio eu bod wedi ystyried y Cytundeb Cyflawni terfynol drafft yn ôl ym mis Medi 2025 ac wedi gwneud argymhelliad i Fwrdd CBC y dylai'r Cytundeb Cyflawni drafft gael ei gymeradwyo gan y CBC i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, tra disgwylir canlyniad proses gosod cyllideb CBC ar gyfer 2026/27. Cytunodd y CBC ar hyn yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2025, gyda'r amod y byddai'r cyflwyniad yn digwydd dim ond ar ôl i gyllideb briodol gael ei chymeradwyo ar gyfer paratoi'r SDP yn 2026/27, gydag ymrwymiad i ystyried cyllideb SDP yn y blynyddoedd dilynol o'r rhaglen bum mlynedd ar gyfer llunio cynlluniau.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.3 Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer y CBC (gan gynnwys yr SDP) gan y CBC ar 23 Ionawr 2026 ac yn yr un cyfarfod cytunodd y CBC hefyd i gyflwyno'r cytundeb Cyflawni SDP yn ffurfiol i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y ddogfen yn ffurfiol ar 11 Chwefror 2026 a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei chytundeb i amserlen y Cytundeb Cyflawni mewn llythyr dyddiedig 24 Chwefror 2026 (gweler atodiad 1).

4.4 Er bod hyn wedi caniatáu dechrau gwaith ar yr SDP, dechreuodd y cyfnod cyn-etholiad yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd yn fuan ar ôl y dyddiad hwn, er bod yr amser wedi'i ddefnyddio'n gynhyrchiol i sefydlu contract cefnogi gyda'r ymgynghorwyr Arup i gynorthwyo'r CBC gyda'r tasgau allweddol cyntaf sy'n ymwneud â pharatoi sail dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o baratoi'r cynllun.

### Grant Perfformiad Llywodraeth Cymru

4.5 Mae Aelodau wedi cael gwybod yn flaenorol bod grant perfformiad untro ar gael a gynigir gan Lywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a ddangosodd gynnydd tuag at baratoi'r cynlluniau o fewn blwyddyn ariannol 2025/26. Er mwyn gallu hawlio'r grant llawn o £200,000, roedd angen i'r CBC fod wedi cyflwyno a chael cytundeb ar ei Gytundeb Cyflawni gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.6 O ystyried y diweddariad blaenorol, cyflawnwyd y dyddiad cau hwnnw ac mae'r CBC wedi hawlio a derbyn y grant perfformiad. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael eto gan Lywodraeth newydd Cymru am y tebygolrwydd ac/neu argaeledd unrhyw gyllid perfformiad neu gymorth yn y dyfodol ar gyfer paratoi SDP.

### Cerrig milltir y rhaglen ar gyfer rhaglen waith blwyddyn un

4.7 Rhennir amserlen yr SDP yn wyth cam penodol a dilyniannol wrth lunio'r cynllun - gweler y tabl isod.

Tabl 1: Camau paratoi SDP allweddol

| Cyfnod Allweddol | | Cyfleoedd i gymryd rhan |
|---|---|---|
| Cam 1 | Cytundeb Cyflawni<br>Paratoi a chyflwyno | Ymgynghori â rhanddeiliad ac ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol |
| Cam 2 | Paratoi a recriwtio cyn-adneuo | Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru |
| Cam 3 | Paratoi'r strategaeth a ffafrir ac ymgynghoriad cyhoeddus | Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 6 wythnos |
| Cam 4 | Paratoi'r Cynllun Adnau ac ymgynghoriad cyhoeddus | Ymgynghoriad cyhoedus ffurfiol 6 wythnos |
| Cam 5 | Cyflwyno i PEDW a Llywodraeth Cymru ar gyfer EIP | Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru |
| Cam 6 | Archwiliad | Cyfle i fynychu a chymryd rhan yn sesiynau gwrandawiadau'r archwiliad |
| Cam 7 | Adroddiad yr Arolygydd | Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru |
| Cam 8 | Mabwysiadu | Darparu diweddariadau ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru |

4.8 Cam un yn ymwneud â pharatoi a chyflwyno Cytundeb Cyflawni ac mae hyn wedi'i gwblhau yn unol â'r diweddariad uchod. Mae'r gwaith bellach wedi symud i gam dau – Paratoi cyn-adneuo a recriwtio. Mewn perthynas â recriwtio, bydd yr Aelodau yn cofio bod y costau amcangyfrifedig o gynhyrchu'r SDP yn cynnwys lwfans ar gyfer penodi sawl swydd gynllunio o fewn y CBC, er bod hyn hefyd yn cael ei amodi am allu denu ymgeiswyr addas heb ddenu pobl o dimau polisi'r Awdurdod Cynllunio Lleol presennol yng ngogledd Cymru, a fyddai'n effeithio ar baratoi'r CDLl ac yn wrth-reddfol.

4.9 Dyma pam fod contract cefnogi gydag Arup wedi'i lofnodi gan fod hyn yn caniatáu i'w hadnoddau weithredu fel tîm rhithwir i gefnogi paratoi SDP heb gael yr effaith leol a nodir uchod. Mae'r CBC wedi paratoi swydd ddisgrifiad Prif Gynllunydd sy'n cael ei werthuso ar hyn o bryd, i ddarparu lefel o gefnogaeth a chymorth mewnol angenrheidiol i'r Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol. Ar ôl ei harfarnu, bydd hyn yn cael ei hysbysebu yn fuan.

4.10 O ran beth mae paratoadau cyn-adneuo yn ei gynnwys, mae hyn yn bennaf yn cynnwys datblygu sail dystiolaeth addas i lywio'r weledigaeth, y strategaeth, y polisïau a'r cynigion o fewn y cynllun. Yn unol â'r amserlen gymeradwy, dylid cynnal cam dau rhwng nawr a diwedd 2026, gyda gorgyffwrdd i symud i gam tri sy'n cynnwys paratoi Strategaeth a Ffafrir erbyn mis Medi 2027 er mwyn caniatáu ymgynghoriad cyhoeddus ar hynny.

4.11 Felly, bydd y deuddeg mis nesaf yn golygu llawer o dystiolaeth gefndir, gweledigaeth a datblygu amcanion strategol, yna paratoi opsiynau twf a gofodol, i'w dwyn ynghyd mewn Strategaeth a Ffafrir. Mae'r isod yn ehangu ar y rhestr o dasgau allweddol yn amserlen y Cytundeb Cyflawni, i roi syniad i'r Aelodau o natur pob tasg:

a. **Paratoi'r sail dystiolaeth** - Mae gwaith eisoes ar y gweill i baratoi sail dystiolaeth ar gyfer yr SDP. I ddechrau, mae hyn yn cynnwys archwilio'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli yn y dystiolaeth a gasglwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi ac adolygu eu CDLl, ochr yn ochr â data a rhagolygon tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth perthnasol eraill. Mae cyfarfod sgopio eisoes wedi'i gynnal gyda swyddogion o bob Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae cyfarfodydd unigol hefyd yn cael eu trefnu i adolygu a thrafod tystiolaeth pob awdurdod yn eu tro. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o ba mor gyfredol yw'r wybodaeth yn ogystal ag a oes bylchau yn y dystiolaeth sydd ei hangen. Bydd argymhellion gan gynnwys sgôp, methodolegau a rhaglen arfaethedig ar gyfer gwaith sail dystiolaeth ychwanegol yn caniatáu i'r CBC ganolbwyntio adnoddau yn unol â hynny, er enghraifft ar baratoi unrhyw dystiolaeth newydd sydd ei hangen i lenwi'r bylchau hyn ar sail ranbarthol, neu weithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol i gydlynu diweddariadau o seiliau tystiolaeth leol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r ymarfer casglu data cyfatebol, gyda'r CBC yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol, a fydd yn llywio datblygiad yr SDP a'i asesiadau effaith.
b. **Adroddiad Cwmpasu Asesiad Effaith Integredig (AEI)** – Mae hyn yn rhan annatod o'r broses o baratoi'r cynllun, ac mae angen datblygu'r cwmpas a'r fethodoleg yn gynnar yn y rhaglen er mwyn i'r broses AEI gael ei defnyddio ar sail ailadroddus ar gamau allweddol yn y cynllun. Yn ei hanfod, wrth i gamau allweddol y cynllun gael eu datblygu, caiff y broses AEI ei defnyddio yn y cam hwnnw i asesu lefel cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol y gall y cynllun ei gael, gan ddefnyddio'r broses i awgrymu sut y gellir gwella'r cynllun i leihau'r effeithiau hynny. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno a'i wneud gan Arup, sydd eisoes wedi cael y profiad o baratoi hwn ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a thrwy hynny gyflwyno arbedion amser a chost o bosibl i'r CBC. Bydd angen ymgynghoriad pwrpasol ar y ddogfen gwmpasu hefyd gyda rhanddeiliaid statudol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.

c. **Prif Faterion ac opsiynau Twf a Gofodol** - Er mwyn nodi'r materion allweddol a'r gyrwyr newid fydd yn galluogi datblygu gweledigaeth gynhwysfawr a rennir ar gyfer y rhanbarth, mae angen i'r CBC edrych ymlaen i'r tymor hwy a chasglu sut y dylai'r rhanbarth edrych mewn ymateb i'r materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw. Bydd hyn yn cael ei lywio drwy lunio adroddiad prif faterion yn dilyn yr archwiliad o dystiolaeth lle bydd y themâu allweddol o'r dystiolaeth sydd â goblygiadau rhanbarthol yn cael eu tynnu allan a'u crynhoi. Bydd hyn yn bwydo gwaith pellach gydag Aelodau a rhanddeiliaid i ddatblygu'r weledigaeth a'r amcanion strategol ar gyfer y cynllun, gan adeiladu ar y gweithdy cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mawrth, ac adroddir am ei ganlyniad yn nes ymlaen.
d. **Galwad am Safleoedd** - Mae'r cam hwn yn galluogi'r holl bartïon â diddordeb i gyflwyno safleoedd posibl a lleoliadau strategol ehangach (meysydd chwilio) i'w cynnwys yn y cynllun. Bydd yn cynorthwyo'r CBC i adnabod safleoedd datblygu posibl a llywio Strategaeth Ofodol yr SDP mewn ymgynghoriad â'r Cyrff Ymgynghori Penodol. Rhan allweddol o hyn fydd pennu graddfa'r hyn a olygir gan 'strategol' yn seiliedig ar y gwahanol ddefnyddiau tir posibl y ceisir cael safleoedd ar eu cyfer – cyflogaeth, tai ac ati – a bydd hyn yn rhan o'r gwaith uchod ar ddatblygu opsiynau. Bydd cofrestr o safleoedd posibl hefyd yn cael ei chreu a methodoleg i'w defnyddio i asesu a dewis safleoedd neu leoliadau cynaliadwy.
e. **Datblygu ac Asesu Twf ac Opsiynau Gofodol** – Rhan greiddiol o baratoi Strategaeth a Ffafrir yw datblygu ac asesu opsiynau ar gyfer lefel y twf y dylai'r cynllun ei hyrwyddo (tai, swyddi, tir cyflogaeth) a'r ffordd fwyaf cynaliadwy o leoli'r twf hwnnw yn y dyfodol trwy strwythur neu hierarchaeth anheddiad. Mae angen i'r SDP ystyried y materion hyn gan eu bod wedi'u nodi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol presennol neu newydd yn ogystal â rhagamcanu potensial ar gyfer twf dros gyfnod y cynllun 25 mlynedd. Yn ofodol, mae hyn yn cynnwys edrych ar dwf o bersbectif rhanbarthol ond hefyd sut y bydd hyn yn cael ei ddosbarthu i bob ardal Awdurdod Lleol yn y rhanbarth. O'r holl dasgau a nodir uchod, gellir dadlau mai'r elfen hon fydd angen gweithio a chydweithio agosaf arni ag Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau bod barn gonsensws ar dwf cyffredinol a'i bod yn cael ei rhannu.

Adrodd ar Gynnydd i'r Is-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

4.12 Cymeradwywyd calendr o holl gyfarfodydd y CBC a'i is-bwyllgorau yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2026. Mae cyfarfodydd yr is-bwyllgor hwn yn y dyfodol wedi'u rhaglennu o fewn yr adroddiad hwnnw ac maent hefyd wedi'u nodi mewn blaen-raglen waith sy'n rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn ac sy'n dilyn yr adroddiad hwn. Er ei bod yn anodd ar hyn o bryd neilltuo pynciau penodol i ddiweddaru adroddiadau ar gyfer y cyfarfodydd hynny, rwyf wedi ceisio nodi pynciau diweddaru tebygol yn seiliedig ar amserlen SDP a'i aliniad â'r dyddiadau cyfarfodydd arfaethedig. Mae'n bosib y bydd rhain yn newid a bydd y blaen-raglen waith yn cael ei monitro a'i diweddaru yn ôl yr angen, a bydd yr Aelodau'n cael eu diweddaru. Prif gais yr Aelodau ar hyn o bryd yw sicrhau bod dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael eu rhoi mewn dyddiaduron. Unwaith y bydd y CBC yn cymeradwyo amserlen y Cyfarfodydd, bydd ceisiadau cyfarfod yn cael eu hanfon i roi dyddiadau yn y dyddiadur ar gyfer cyfarfodydd yr is-bwyllgor. Mae cyfarfodydd yr is-bwyllgor yn cyd-fynd i hwyluso'r gwaith o adrodd ymlaen am gynnydd i'r CBC.

4.13 Mae swyddogion hefyd yn ymwybodol y bydd Etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027, ac o fewn amserlen y rhaglen waith hon. Gan fod llawer o'r gwaith yn cynnwys casglu tystiolaeth a datblygu opsiynau, mae llawer o hyn yn waith cefndir fydd yn bwydo i mewn i ddatblygu Strategaeth a Ffafrir - nid yw hon i'w chyhoeddi nac ymgynghori arni tan haf 2027, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth CBC cyn i hyn ddigwydd. Gobeithio y gellir cynnal cynnydd da, gan gynnwys croesgyfeirio gwaith â sefyllfa a chynnydd y CDLl priodol.

4.14 Yn dilyn llwyddiant gweithdy'r Aelodau ym mis Mawrth 2026, rhoddir ystyriaeth hefyd i drefnu sesiynau pellach, yn enwedig pan fo datblygu gweledigaeth neu opsiynau twf a gofodol yn ddull ailadroddus sy'n gofyn am drafodaeth eang, cyn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r is-bwyllgor. Gwahoddir barn yr aelodau ar y mater hwn, a gellir ychwanegu'r rhain at y blaen-raglen waith.

Adborth o'r gweithdy SDP a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026

4.15 Bydd yr aelodau yn cofio gweithdy anffurfiol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar ddydd Llun 9 Mawrth 2026 yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Roedd hyn er mwyn hwyluso dod ag Aelodau o'r is-bwyllgor at ei gilydd wyneb yn wyneb a hefyd i glywed gan brif siaradwyr allanol (Mark Newey o Lywodraeth Cymru a Lisa Fairmaner o Arup) ar y dull o gynllunio strategol. Roedd y sesiwn hefyd yn rhoi amser ar gyfer ymarfer lefel uchel i gasglu meddyliau'r Aelodau mewn perthynas â'r materion i'r SDP fynd i'r afael â nhw, y prif yrwyr ar gyfer y cynllun, a sut maent eisiau i'r rhanbarth edrych yn 2051.

4.16 Defnyddiwyd system *'post-it notes'* ar-lein i gofnodi'r sgyrsiau a gafwyd, ac mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn atodiad 2 yr adroddiad hwn. Mae sawl thema glir wedi dod i'r amlwg o'r wybodaeth a gasglwyd ac mae'r rhain yn darparu man cychwyn defnyddiol iawn ar gyfer gwaith datblygu yn y dyfodol ar weledigaeth ar gyfer y cynllun ac amcanion strategol.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd lle gwnaed darpariaeth i gefnogi'r gwaith hwn, gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau pob cyfle am ragor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Llythyr Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
**Atodiad 2:** Canlyniadau Gweithdy Aelodau SDP

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i.

Swyddog Monitro:

“Fel y nodwyd uchod, mae gan y CBC ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac mae’r fframwaith statudol wedi'i nodi yn yr adroddiad. At ddibenion nodi yn unig y

mae'r argymhellion ac nid ydynt yn cymeradwyo unrhyw safbwynt polisi sylweddol, strategaeth ffafredig, dyraniad safle na dogfen ymgynghori.

Wrth i'r SDP fynd rhagddo, bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol nodi ymhellach y cam statudol perthnasol, gofynion ymgynghori, dyletswyddau asesu, ac ati. Gall gweithdai anffurfiol i Aelodau gynorthwyo i ddatblygu'r SDP, ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer ymgysylltu a thrafodaeth yn unig, gydag unrhyw allbynnau perthnasol yn cael eu bwydo i'r broses adrodd a gwneud penderfyniadau ffurfiol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir ac mae'r costau amcangyfrif o gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu hystyried yn barhaus. Bydd yn cael ei gynnwys yn ein gwaith fel rhan o'r adolygiadau cyllideb rheolaidd, y broses gyllideb flynyddol yn ogystal ag yn y cynllun ariannol tymor canolig."

**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1495798

Andy Roberts
Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol
Uchelgais Gogledd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Annwyl Andy,

24 Chwefror 2026

**Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru: Cynllun Datblygu Strategol y Cytundeb Cyflawni**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) Rheoliadau 2021**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 11 Chwefror yn gofyn am gytundeb i'ch Cytundeb Cyflawni ar gyfer eich Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn dilyn cadarnhad drwy benderfyniad gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 23 Ionawr. Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i'r cadarnhad ffurfiol o'r Cytundeb Cyflawni gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol cyfnod 2026-2051.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn ddyletswydd statudol a roddir ar bob Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru. Mae cael cynllun datblygu strategol cyfredol ar waith yn sail i'r system gynllunio yng Nghymru ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i ddull datblygu sy'n seiliedig ar gynlluniau. Mae rheoli prosiectau'n effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol i sicrhau bod modd paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 1 (paragraff 6.2) ac Atodiad 5 y Cytundeb Cyflawni. Mae'r amserlen hon a nodir yn y Cytundeb Cyflawni yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Strategol Drafft.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r costau ariannol a nodwyd ar gyfer pob agwedd ar baratoi'r cynllun (paragraffau 7.2, 7.5 a 7.6) ac yn cydnabod pwysigrwydd ymrwymiad y Cyd-bwyllgor

Corfforedig i sicrhau bod y cyllid hwn ar gael i baratoi'r cynllun, drwy gytundeb y Cytundeb Cyflenwi hwn. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd dadgyfuno'r costau cyffredinol hyn i bob Awdurdod Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol priodol o fewn cwmpas daearyddol y Cynllun Datblygu Strategol. Nodir hefyd yr adnoddau staffio a nodwyd i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (paragraffau 7.4 a 7.7) ac ymrwymiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddarparu adnoddau ar gyfer y gofynion staffio, neu gyfwerth.

Prawf o 'gadernid' y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn drwy'r archwiliad yw a yw'n glynu wrth y Cytundeb Cyflenwi y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau.  Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r Cytundeb Cyflawni rydych chi wedi'i gyflwyno yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriad pob cam o'r Cynllun Datblygu Strategol (Atodiad 5) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol ym mis Mawrth 2031.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cymhlethdod paratoi Cynllun Datblygu Strategol ac y gallai fod rhywfaint oedi o ran cyrraedd y cerrig milltir a osodir yn yr amserlen a nodir. Yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfnod oedi o 6 mis yn briodol.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni rydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau cytundeb** â'r amserlen a nodir yn Nhabl 1, paragraff 6.2 ac Atodiad 5, fel y darperir ar ei gyfer yn Adran 60N(4) a 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 11 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

Dylai'r fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni fod ar gael i'r cyhoedd yn awr yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 12.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**

**Crynodeb o sesiwn weledigaeth Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar-lein**

**MATERION RHANBARTHOL**

1. Darpariaeth ar gyfer Twf
    a. Lleoliadau ar gyfer twf – Ardaloedd Twf Cymru'r Dyfodol, hierarchaeth ofodol
    b. Graddfa Twf – yr un peth ar draws y rhanbarth?
    c. Dull cyfannol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig - nid yn unig am ardaloedd trefol
    d. Mathau allweddol o dwf i'w hystyried:
        i. Cyflogaeth
        ii. Tai (gan gynnwys fforddiadwy)
        iii. Ynni
        iv. Twristiaeth
        v. Rôl aneddiadau?

2. Derbyn Twf
    a. Cynllun sy'n cael ei arwain gan isadeiledd
    b. Capasiti isadeiledd:
        i. Ffisegol – Trafnidiaeth, draenio, pŵer, dŵr
        ii. Cymdeithasol – Addysg, iechyd
    c. Mae angen i'r cynllun hwyluso Gwydnwch yng nghymunedau Gogledd Cymru
    d. Hyfywedd
    e. Poblogaeth sy'n heneiddio – atal pobl ifanc rhag gadael/eu denu'n ôl
    f. Trin y rhanbarth yn holistig yn erbyn cydnabod gwahaniaethau is-ranbarthol Gogledd-orllewin – Gogledd-ddwyrain
    g. Mynd i'r afael ag anghenion penodol:
        i. Terfynau/diogelu amgylcheddol
        ii. Darparu Tai Fforddiadwy
        iii. Sipsiwn a Theithwyr
    h. Perthynas ardaloedd gwledig a threfol – cysylltedd

3. Ffactorau cysylltiedig
    a. Capasiti'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r berthynas â Chynlluniau Lleol
    b. Ymgysylltu â grwpiau allweddol:
        i. Darparwyr isadeiledd
        ii. Adeiladwyr tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL)
        iii. Pobl ifanc/grwpiau anodd eu cyrraedd
    c. Gwahaniaethau is-ranbarthol a sut i ddarparu ar gyfer – economïau, yr iaith Gymraeg, Rolau strategol

**GYRWYR AR GYFER NEWID**

1. Prif Ffocws – Twf economaidd a llesiant
    a. Creu cyfleoedd swyddi OND...
        i. Swyddi cywir yn y lle iawn
        ii. Digon o weithwyr?
        iii. Sgiliau digonol e.e. Deallusrwydd artiffisial, niwclear, ynni adnewyddadwy, digidol
    b. Hygyrchedd
    c. Cynaliadwyedd

2. Cefnogi Twf
    a. Cyd-destun polisïau'r llywodraeth
    b. Cyfleoedd ariannu:
        i. Cynllun Twf a Pharth Buddsoddi – beth sy'n digwydd ar ôl y rhain?
        ii. Fframwaith tymor hir ar gyfer twf economaidd parhaus
        iii. Gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o gyfleoedd a buddion

3. Cyfleoedd/Asedau Strategol
    a. Diffinio Gogledd Cymru mewn cyd-destun byd-eang a'i USPs e.e. gwytnwch i newid hinsawdd, cynhyrchu bwyd cynaliadwy, capasiti ynni, ansawdd lle
    b. Cynnig niwclear – Wylfa, safleoedd microgynhyrchu?
    c. Ynni adnewyddadwy ar y môr gan gynnwys llanw
    d. Arwyddocâd Porthladdoedd
    e. 'Pyrth' Gogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin i farchnadoedd, llafurlu, buddsoddiad
    f. Mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy fuddsoddi mewn natur, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, rheoli tir
    g. Gweld natur fel ased
    h. Cysoni uwchraddio isadeiledd â thaf-lwybr twf

**GWELEDIGAETH 2051 AR GYFER GOGLEDD CYMRU**

1. Y Lle
    a. Prif leoliad i fyw, gweithio ac astudio
    b. Lleoedd o ansawdd gwell – iach, gwydn, bywiog, deniadol
    c. Wedi'i gysylltu'n dda yn ffisegol a digidol
    d. Lle o ansawdd, hunaniaeth, uniondeb, hynodrwydd, amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol
    e. Cymunedau wedi'u cysylltu'n dda gyda chyfle cyfartal

2. Y Bobl
    a. Dyfodol lle mae gan bobl ifanc ddewis go iawn i aros, neu ddychwelyd ar ôl symud i ffwrdd

3. Yr Asedau/isadeiledd
    a. Amcanion rhanbarthol cyffredin a chydweithio – naratif clir i fuddsoddwyr
    b. Gwell cysylltedd trafnidiaeth yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
    c. Stoc dai o ansawdd a fforddiadwy
    d. Hunangynhaliaeth ynni (ynni adnewyddadwy, niwclear)

4. Y Cyfle
    a. Bod y dewis cyntaf ar gyfer buddsoddi – nid y berthynas dlawd i Dde Cymru
    b. Deinamig, arloesol, agored i fusnes
    c. Creu ffyniant trwy gyfleoedd
    d. Bod yn yrrwr allweddol i Economi Cymru

**Negeseuon am y Cynllun Strategol**

**Arup**

- Mae llawlyfr SDP yn datrys llawer o broblemau - manylion? - cynlluniau mwy rhagnodol yn fwriadol
- Eglurder ar lefelau gronynnedd
- Cysylltu fframweithiau gweithredol ar draws haenau'r llywodraeth
- Llaw rydd neu allbynnau wedi'u penderfynu ymlaen llaw?
- Gweledigaeth a rennir – beth am anghytundebau – rheolau ar gyfer blaenoriaethu beth sy'n mynd i'r cynllun a ble? - perchnogaeth cynllun
- Rysáit ar gyfer cynllun da - **syniadau beirniadol wedi'u mynegi yn syml**
- Ystyried ansicrwydd (cynllun 25 mlynedd) - fframwaith polisi galluogi yn erbyn presgripsiwn (blaenorol yn gwneud synnwyr)
- Diffinio marchnadoedd tai
- Gosod targedau tai
- ‘O'r brig’ yn erbyn ‘i fyny o'r gwaelod’ - twf strategol yn erbyn twf lleol cronnus
- Y gallu i gyflawni a hyfywedd – cwmpas rhanbarthol
- Tai fforddiadwy
- Safonau creu a dylunio lleoedd

**Mark Newey LlC**

- Angen diffinio a mynegi gweledigaeth yn glir ar gyfer y cynllun a'r hyn y mae am ei gyflawni
- Byddwch yn ddewr – gweld y cynllun fel cyfle i ddiffinio fframwaith cadarnhaol ar gyfer y rhanbarth, yn hytrach na bod yn bryderus am ei wneud yn iawn
- Asesu'r rhanbarth yn ei chyfanrwydd a nodi beth sy'n strategol arwyddocaol, pam, a ble
- Nodi'r materion allweddol y dylai'r cynllun anelu at fynd i'r afael â nhw / hwyluso datrysiadau iddynt – tai, swyddi, trafnidiaeth, ynni, newid hinsawdd, demograffeg, capasiti isadeiledd
- Graddfa wahanol o feddwl – hierarchaeth anheddiad, prif rwydwaith trafnidiaeth, safleoedd buddsoddi strategol
- Cwestiynau allweddol:
    - Sut rydyn ni eisiau i ogledd Cymru edrych yn 2051?
    - Pa raddfa o faterion rydyn ni am i'r SDP eu hystyried?
    - Canolbwyntiwch ar leoliadau strategol bwysig yn hytrach na dweud rhywbeth am bob man
    - Materion allweddol i fynd i'r afael â nhw?
    - Perthnasoedd ag ardaloedd y tu allan i'r rhanbarth?
    - Beth os nad yw'r cynllun yn symud ymlaen?
    - Cyfle a gollwyd – cysylltiadau â chyllid yn y dyfodol?

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

BLAENGYNLLUN GWAITH 2026/27

Mae Is-bwyllgor Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, gan nodi amcanion ar gyfer defnyddio a datblygu tir ledled y rhanbarth. Mae'n sicrhau bod y polisïau sydd eu hangen i weithredu'r amcanion hyn yn effeithiol ac yn cadw ffactorau datblygu dan adolygiad parhaus.

| Dyddiad y cyfarfod | Teitl yr Adroddiad | Diben yr Adroddiad | Awdur yr Adroddiad | Eithriedig |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **1 Gorffennaf 2026**<br>**3.15pm**<br>**cyfarfod ffurfiol** | Diweddariad Sefyllfa ar y SDP | Crynodeb o'r sefyllfa a gyrhaeddodd y SDP ac edrych ymlaen at y rhaglen waith ar gyfer y deuddeg mis nesaf | Andy Roberts | Amh. |
| | Blaengynllun Gwaith Drafft | Nodi'r gyfres arfaethedig o gyfarfodydd is-bwyllgor fel dyddiadau i'r dyddiadur ar gyfer Aelodau gydag amlinelliad rhagarweiniol o gynnwys posibl ar gyfer adroddiadau cynnydd i'r cyfarfodydd hynny | Andy Roberts | Amh. |
| Angen diweddariad ar y Sefyllfa ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor DYDDIAD | | | | |
| | | | | |
| **14 Medi 2026**<br>**2pm**<br>**cyfarfod ffurfiol** | Diweddariad Sefyllfa ar y SDP<br>• Cynnydd gyda chasglu tystiolaeth<br>• Adroddiad cwmpasu Asesiad | Crynodeb o'r sefyllfa wedi'i gyrraedd gyda'r SDP ac aliniad ag amserlen y Cytundeb Cyflawni | Andy Roberts | Amh. |

Eitem 8



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Effaith Integredig (AEI)<br>• Galwad am safleoedd | | | |
| | Blaengynllun Gwaith Drafft | Diwygiadau a diweddariadau blaen raglen waith | Andy Roberts | Amh. |
| Angen diweddariad ar y Sefyllfa ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor DYDDIAD | | | | |
| | | | | |
| **9 Tach 2026**<br>**2pm**<br>**cyfarfod ffurfiol** | Diweddariad Sefyllfa ar y SDP<br>• Gweledigaeth ac Amcanion Strategol<br>• Adroddiad Prif Faterion | Crynodeb o'r sefyllfa wedi'i gyrraedd gyda'r SDP ac aliniad ag amserlen y Cytundeb Cyflawni | Andy Roberts | Amh. |
| | Blaengynllun Gwaith Drafft | Diwygiadau a diweddariadau blaen raglen waith | Andy Roberts | Amh. |
| Angen diweddariad ar y Sefyllfa ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor DYDDIAD | | | | |
| | | | | |
| **18 Ion 2026**<br>**2pm**<br>**cyfarfod ffurfiol** | Diweddariad Sefyllfa ar y SDP<br>• Opsiynau twf<br>• Opsiynau strategaeth ofodol | Crynodeb o'r sefyllfa wedi'i gyrraedd gyda'r SDP ac aliniad ag amserlen y Cytundeb Cyflawni | Andy Roberts | Amh. |
| | Blaengynllun Gwaith Drafft | Diwygiadau a diweddariadau blaen raglen waith | Andy Roberts | Amh. |
| Angen diweddariad ar y Sefyllfa ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor DYDDIAD | | | | |
| | | | | |
| **19 Gorffennaf 2027**<br>**3.15pm**<br>**cyfarfod ffurfiol** | Diweddariad Sefyllfa ar y SDP<br>• Datblygu'r Strategaeth a Ffafrir | Crynodeb o'r sefyllfa wedi'i gyrraedd gyda'r SDP ac aliniad ag amserlen y Cytundeb Cyflawni | Andy Roberts | Amh. |
| | Blaengynllun Gwaith Drafft | Diwygiadau a diweddariadau blaen raglen waith | Andy Roberts | Amh. |
| Angen diweddariad ar y Sefyllfa ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor DYDDIAD | | | | |
| | | | | |

Mae'r Is-bwyllgor yn adrodd ar berfformiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn chwarterol, fel sydd wedi'i amlinellu yng Nghytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol, mae'n cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i dracio cynnydd ac, os oes angen, yn paratoi Adroddiad Adolygu os oes angen gwneud diwygiadau yn seiliedig ar reoliadau statudol neu ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Cyffredinol: Cyfrifoldebau'r Is-bwyllgor - Beth sydd angen ei gyflawni:**

- Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 yn cynnwys cyflawni camau penodol fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.
- Darparu cyngor/diweddariadau strategol i'r CBC
- Darparu ymatebion i LlC ar faterion cynllunio gofodol.
- Cydlynu a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) statudol i'r CBC ar ôl mabwysiadu'r SDP
- Monitro ac Adolygu Cyflawniadau (i wneud argymhellion i'r CBC yn ôl yr angen)
- Aelodau Cyfetholedig (â phleidlais) - i'w cadw dan adolygiad
- Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)